| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **20 Mehefin 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad/Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Gwelliant Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Y Gofrestr Risg Corfforaethol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Adolygiad ffurfiol o'r Cofrestr Risg Corfforaethol mis Mehefin 2013.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I gyflwyno'r Cofrestr Risg Corfforaethol i Archwilio Perfformiad, fel y cytunwyd gan y Tîm Gweithredu Corfforaethol (CET).

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn nodi'r dileadau, yr ychwanegiadau a'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Corfforaethol, a chael cyfle i wneud sylwadau.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1. Mae'r prif newidiadau i'r Gofrestr Risg Corfforaethol wedi'u rhestru yn Atodiad 1 sydd wedi'i atodi.

4.2. Mae'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn galluogi'r cyngor i reoli tebygolrwydd ac effaith risgiau drwy werthuso effaith unrhyw weithredoedd i liniaru risg, a chofnodi dyddiadau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredoedd pellach er mwyn sicrhau rheolaeth well.

4.3. Y Tîm Gweithredu Corfforaethol sydd â'r cyfrifoldeb am y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Tîm sydd wedi'i datblygu. Mae'r broses adolygu fel a ganlyn:

- Anogir gwasanaethau i adolygu eu cofrestr risg ddwywaith y flwyddyn (yn unol â methodoleg rheoli risg corfforaethol) cyn bob adolygiad o'r Gofrestr Risg Corfforaethol, a chyn eu cyfarfodydd Herio Perfformiad Gwasanaethau. Bydd unrhyw faterion neu ymholiadau yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd Herio Perfformiad Gwasanaethau.

- Mae'r Tîm Gwelliant Corfforaethol yn dadansoddi cofrestrau risg y gwasanaethau i ganfod risgiau sy'n arwyddocaol yn gorfforaethol neu unrhyw themâu sy'n ymddangos ar draws y gwasanaethau.

- Mae’r diweddariadau am risgiau corfforaethol cyfredol yn cael eu casglu gan berchnogion y risg, a bydd diweddariadau am weithredoedd i liniaru yn cael eu casglu gan y rhai sy’n cyflawni’r gweithredoedd.
- Cynhelir cyfarfodydd unigol gyda’r Prif Weithredwr a phob Cyfarwyddwr Corfforaethol, i drafod y risgiau y maent yn gyfrifol amdanynt. Rhoddir ystyriaeth a yw’r risg yn parhau, a yw’r sgôr yn gywir, ac a oes angen cynnwys unrhyw risgiau newydd o’u hawdurdodaeth.
- Cynhelir gweithdy risg gyda’r Tîm Gweithredu Corfforaethol i adolygu risgiau cyfredol; trafod cynnydd ar weithredoedd lliniaru a gytunwyd arnynt; trafod a chytuno ar risgiau corfforaethol newydd; adolygu a diweddaru sgôr risgiau sy’n weddill; diweddaru rheolyddion sydd eisoes yn bodoli (yn dilyn gweithredoedd sydd eisoes wedi’u cwblhau); a chytuno ar unrhyw weithredoedd eraill sydd eu hangen i liniaru’r risg.

4.4 Mae’r Tîm Gweithredu Corfforaethol yn adolygu’r Gofrestr Risg Corfforaethol yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn. Ond, bydd unrhyw risgiau newydd neu risgiau cynyddol yn cael eu hadrodd i’r Tîm Gweithredu Corfforaethol (drwy’r Tîm Gwelliant Corfforaethol) pan fyddant yn cael eu canfod. Yna bydd y Tîm Gweithredu Corfforaethol yn penderfynu a ddylid cynnwys y risg yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.

4.5 Yn dilyn adolygiad ffurfiol y Gofrestr Risg Corfforaethol (ddwywaith y flwyddyn), mae’r ddogfen sydd wedi’i hadolygu yn cael ei chyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

4.6 Bydd y gweithredoedd sy’n cael eu penderfynu er mwyn delio â risgiau corfforaethol yn cael eu cynnwys yng Nghynlluniau Gwasanaethau, ble bo’n addas, sy’n galluogi i Aelodau Archwilio Perfformiad fonitro’r cynnydd. Dylid amlygu unrhyw faterion perfformiad mewn perthynas â chynnal y digwyddiadau fel rhan o broses Herio Perfformiad Gwasanaethau.

4.7 Mae Archwilio Mewnol y cyngor yn darparu sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol a’r mecanwaith sydd wedi’u gosod er mwyn lliniaru risgiau yn y cyngor. Mae hefyd yn cynnig her annibynnol i sicrhau bod egwyddorion a gofynion rheoli risg yn cael eu defnyddio’n gyson ym mhob rhan o’r cyngor. Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio gwybodaeth o gofrestrau risg gwasanaethau a’r un corfforaethol er mwyn penderfynu ar eu rhaglen gwaith i’r dyfodol.

4.8 Bydd adolygiad ac adroddiad blynyddol ar gynnydd polisi rheoli risg, wedi’i gynhyrchu gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, yn adnabod mannau gwan sydd angen eu cryfhau i wella’r broses o reoli risg.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Pwrpas y Gofrestr Risg Corfforaethol yw adnabod digwyddiadau posibl yn y dyfodol all gael effaith niweidiol ar allu’r cyngor i gyflawni’r amcanion, gan gynnwys y blaenoriaethau corfforaethol. Mae’r rheolyddion a’r gweithredoedd

yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni’r blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae cost datblygu, monitro ac adolygu’r Gofrestr Risg Corfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i’r adroddiad.**

7.1. Mae’r Gofrestr Risg Corfforaethol yn dogfennu risgiau sydd wedi’u canfod, a’r gweithredoedd lliniaru cyfredol ac arfaethedig. Nid yw’r broses o ddatblygu ac adolygu’r ddogfen yn cael effaith uniongyrchol ar bobl gyda rhinweddau wedi’u diogelu. Ond, dylid asesu effaith ar gydraddoldeb unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy’n cael eu ffurfio o ganlyniad i weithred lliniaru.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae manylion y broses ymgynghori i adolygu’r Gofrestr Risg Corfforaethol wedi’u cynnwys ym mharagraff 4.3.

**9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o’r broses sydd wedi’i hamlinellu yn yr adroddiad hwn i ddatblygu, monitro ac adolygu’r Gofrestr Risg Corfforaethol.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

10.1 Y prif risg yn berthnasol â’r broses o reoli risg yw nad yw’r cofrestrau’n cael eu hadolygu’n rheolaidd ac felly nid ydynt yn offer rheoli ystyrlon a dynamig. Ond, mae’r broses newydd wedi’i chynnwys yn llawn yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor a dylai sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

- Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Erthygl 6 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Gwelliant Corfforaethol
Ffôn: 07810 055413